**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Addysg

**MS Teams**

**Dydd Llun, 19 Chwefror 2024 am 4.30 pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A Davis | A M Day | F M Gordon |
| S Joy | J D McGettrick | F D O'Brien |
| A J O'Connor | | |

| **Aelod(au) Cyfetholedig** | **Aelod(au) Cyfetholedig** | **Aelod(au) Cyfetholedig** |
|---|---|---|
| Beth Allender | Elizabeth Lee | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Michelle Thomas | Swyddog Cyllid a Gwybodaeth - Addysg |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): B Hopkins a/ac S M Jones

---

127 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

128 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim

129 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

130 **Trefniadaeth ysgolion - Cynlluniau'r dyfodol ar gyfer Ysgolion Arbennig yn Abertawe - Cyflwyniad a thrafodaeth**

Diolchodd y Panel i'r Cyfarwyddwr Addysg a'r Swyddog Cyllid a Gwybodaeth - Addysg am ddod i'r cyfarfod i drafod cynlluniau'r dyfodol ar gyfer ysgolion arbennig yn Abertawe. Darparwyd cyflwyniad a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Y weledigaeth a'r achos dros newid
- Beth, sut, pryd a ble, mewn perthynas â'r bwriad i uno
- Yr ymgynghoriad sydd wedi'i gynnal a'r ymatebion a dderbyniwyd

- Hysbysiad Statudol ac amserlen
- Camau nesaf

Gofynnodd y panel nifer o gwestiynau:

- Nifer yr ymatebion a gefnogodd y cynnig
- Ble'r oedd y safleoedd eraill a ystyriwyd ar gyfer lleoli'r ysgol newydd
- Beth yw cyflwr/categori'r ddau adeilad y symudir ohonynt
- A fydd costau cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cynyddu.
- Faint o ddisgyblion ychwanegol fydd y cynnig yn darparu ar eu cyfer. Faint rydym yn eu gwasanaethu ar hyn o bryd. Nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir
- Sut byddwn yn sicrhau bod anghenion y dyfodol yn cael eu cynnwys yn y cynnig hwn fel ei fod yn addas ar gyfer y dyfodol.
- A fydd y meini prawf mynediad a'r broses a ddefnyddir yn cael eu hadolygu yng ngoleuni'r mathau gwahanol o ddisgyblion a all fod yn dod drwodd.
- A fydd yr uniad yn cael unrhyw oblygiad ar swyddi neu a fydd e'n arwain at golli swyddi.
- A yw'r bobl a fynegodd eu barn yn yr ymgynghoriad yn gwybod bod yn rhaid iddynt roi eu gwrthwynebiad hefyd, pe baent am wneud hynny.
- A yw Estyn wedi rhoi unrhyw adborth ar ymateb y cyngor i'r hyn a gyflwynwyd ganddynt mewn perthynas â'r ymgynghoriad.
- A fu'n rhaid gohirio unrhyw waith arall mewn ysgolion eraill er mwyn i'r uno a'r gwaith i godi adeilad newydd fynd rhagddynt o bosib.

Bydd crynodeb o'r drafodaeth gan gynnwys mewn perthynas â'r cwestiynau hyn, gan gynnwys barn y panel am y mater hwn, yn rhan o lythyr y Cynullydd at Aelod y Cabinet yn dilyn y cyfarfod hwn.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.20 pm

**Cadeirydd**